## Tasg 2

# Y DEG GORCHYMYN

1. Pa un yw'r gwaethaf i fynd gyda chi i'r ysgol yn ôl y bardd? Cagŵl neu sachell lledr? Pam rydych chi'n dweud hyn?

2. Dewiswch un o'r ansoddeiriau hyn i ddisgrifio'r chwaer fawr. Defnyddiwch eiriadur os nad ydych yn siŵr o'u hystyr.

   Anghyfrifol
   Eithafol
   Cymdeithasol
   Synhwyrol
   Pam rydych chi wedi dewis yr ansoddair yma?

3. Pa gyngor ydy'r pwysicaf? Pam rydych chi'n dewis hwn?

4. Dydy'r chwaer fach ddim yn dilyn cynghorion y chwaer fawr yn union. Ar ôl darllen beth mae hi'n ei wneud dywedwch pa dair rheol mae hi'n eu torri.
   I fynd i'r ysgol gwisgodd y chwaer fach sgert mini a rhoddodd ddau fathodyn yn ei siwmper. Doedd hi ddim yn medru cerdded mewn sodlau uchel felly gwisgodd esgidiau du fflat. Gan ei bod yn tywallt y glaw gwisgodd gôt law a chadwodd honno ei bag cŵl yn sych. Doedd dim pwrpas iddi roi gwm cnoi ynddo oherwydd dydy hi byth yn ei fwyta.

   i)

   ii)

   iii)

5. Pa 5 cyngor fyddech chi'n rhoi i blentyn sy'n mynd i Flwyddyn 7 yn eich ysgol chi?

i)

ii)

iii)

iv)

v)